



**Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission**

**COFNODION CYFARFOD 8 MAI, 9.00-11.00,
YSTAFELL GYNADLEDDA 4B**

Yn bresennol:

Y Llywydd

Lorraine Barrett AC (Llafur)

Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol)

Chris Franks AC (Plaid Cymru)

William Graham AC (Ceidwadwyr)

Swyddogion yn bresennol:

Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc)

Dianne Bevan (Prif Swyddog Gweithredol)

Keith Bush (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol)

Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)

Aled Eirug (Ymgynghorydd Cyfansoddiadol)

Craig Stephenson (Pennaeth yr Uned Gorfforaethol)

Cerys Gage (Ysgrifenyddiaeth)

Ymgynghorwyr annibynnol:

Dim

Sylwedyddion:

Kathryn Jenkins (Clerc, Y Pwyllgor Menter a Dysgu)



Cofnodion y cyfarfod blaenorol:

Nodwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol wedi'u cytuno y tu allan i bwyllgor.

Materion yn codi:

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

Datgan Buddiannau

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiant unigol. Pan oedd y Comisiwn yn ystyried materion sy'n effeithio ar Aelodau Cynulliad, roedd y canlyniadau, yn amlwg a wnelo â Chomisiynwyr fel Aelodau Cynulliad.

Eitem 1 – Materion sy'n effeithio ar Aelodau'r Cynulliad

Papur 1A – Cyflogi Aelodau'r Teulu

Cyflwynodd William Graham y papur a oedd yn argymhell cyflwyno Cofrestr o Aelodau Cyflogedig o'r Teulu a lefel bonws wedi'i gapio ar gyfer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Croesawodd y Comisiwn y papur a chytunodd bod cadw cofnod o holl aelodau'r teulu yn arddangos yr arfer gorau ac roedd yn enghraifft dda o'r Cynulliad yn gweithredu gyda gonestrwydd a thryloywder.

Cymeradwyodd y Comisiwn y papur a chytunodd y byddai ymgynghori â'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn briodol yn y lle cyntaf. Dylid dechrau poblogi'r Gofrestr o Aelodau Cyflogedig o'r Teulu, a oedd yn annhebygol o fod yn feichus, cyn gynted ag yr oedd yr ymgynghori wedi digwydd ac ar ôl diwygio'r Rheolau Sefydlog. Dywedodd Adrian Crompton y byddai hyn yn cael ei drefnu. Byddai hyn yn galluogi'r Comisiynwyr i ymgynghori â'u grwpiau gwleidyddol yn y cyfamser.

Gweithredu: Cynnig drafft a gwelliant i'r Rheolau Sefydlog i gael eu paratoi, ac ymgynghori â'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Comisiynwyr i drafod â'u grwpiau.

Papur 1B – Panel arolygu annibynnol i gymorth ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol

Cyflwynodd William Graham ail adroddiad y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol i aelodau a gwnaeth argymhelliad y dylid sefydlu panel annibynnol a fyddai'n adolygu'r amrediad cyfan o dâl a chymorth i Aelodau'r Cynulliad, na fyddai'n cael ei gyfyngu gan gwestiynau neilltuol na chan y system bresennol yma nac yn unrhyw fan arall yn y DU ac a fyddai'n gorffen ei waith ac yn adrodd i'r Comisiwn erbyn diwedd 2008/09.



Pwysleisiodd y Comisiwn ei gefnogaeth i'r adolygiad ac roedd yn falch bod unigolion fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiynydd Safonau a'n Cynghorydd Llywodraethu Corfforaethol wedi cytuno i gynorthwyo'r panel, gan y byddai hyn yn helpu i gynnal safonau llywodraethu da. Cytunodd y Comisiwn y dylai'r Panel Arolygu fod yn hollol annibynnol ac y dylai gynnwys aelodau ag arbenigedd gwahanol. Nododd y Comisiwn bod y Prif Weithredwr yn cymryd cyfrifoldeb personol am oruchwylio'r adolygiad ac y byddai'n penodi cymorth llawn amser i reoli'r broses.

Gweithredu: Y Prif Weithredwr i drefnu bod hysbysebion yn cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl.

Papur 1C – Y Defnydd o Adnoddau'r Cynulliad gan Aelodau'r Cynulliad

Cyflwynodd William Graham y papur ar Y Defnydd o Adnoddau'r Cynulliad gan Aelodau'r Cynulliad. Bu Comisiynwyr yn trafod y canllawiau drafft ar ddefnyddio adnoddau copïo a phostio a chytunwyd eu bod yn fwy eglur, yn dilyn awgrymiadau gan y Comisiynydd Safonau. Cynhyrchwyd y canllawiau newydd arfaethedig ar gynnwys gwefannau Aelodau gyda chymorth lwfansau costau swyddfa, mewn ymateb i geisiadau gan Aelodau ac roeddynt yn seiliedig ar y rhai sy'n bodoli yn Nhy'r Cyffredin. Nodwyd mai mesur dros dro fyddai'r ddwy set o ganllawiau nes bod y Panel Arolygu Annibynnol (Papur 1B) mewn sefyllfa i adrodd ar y defnydd o adnoddau, a chafodd ei ddatblygu er mwyn sicrhau defnydd priodol o gronfeydd cyhoeddus, dull cyson, gwerth am arian ac er mwyn sicrhau y gallai ein gwasanaethau ymdopi â galw. Byddai angen monitro'r defnydd o adnoddau'n gyson yn y cyfamser a chytunwyd, o fwyafrif, y dylid dosbarthu canllawiau diwygiedig sy'n egluro'r ffiniau'n eglur. Roedd Chris Franks yn anghytuno â'r cynigion.

Gweithredu: Canllawiau diwygiedig i'w dosbarthu.

Eitem 2 – Materion Llywodraethu Corfforaethol

Papur 2A – Cynllunio cyllideb 2009/10

Cyflwynodd William Graham y papur a oedd yn gofyn i'r Comisiwn gymeradwyo strategaeth y gyllideb ac ystyried y cynigion sy'n ymddangos ac sy'n cydymffurfio â'r nodau strategol. Nodwyd blaenoriaeth y Comisiwn o gael gwerth am arian. Byddai materion yn ymwneud ag adnoddau'n cael eu hystyried yn y cyfarfod ar y cyd nesaf rhwng Comisiwn y Cynulliad a'r Pwyllgor Busnes ar 10 Mehefin pan fyddai anghenion busnes y Cynulliad, rhaglen ddeddfwriaethol a phatrymau gwaith y Llywodraeth yn pennu a fyddai angen adnoddau ychwanegol. Bu Comisiwn y Cynulliad yn trafod y cynigion am well dulliau darparu a phwysleisiodd y byddai degfed pen-blwydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n rhoi cyfle i godi ymwybyddiaeth o'r Cynulliad.



Cadarnhawyd mai canolbwynt unrhyw ddigwyddiadau a chyfathrebu fyddai gwella gwybodaeth a chyfranogiad y cyhoedd. Cytunodd y Comisiwn ar yr argymhellion.

Papur 2B – Y wybodaeth ddiweddaraf am Reoli Risg a Lles

Cyflwynodd Claire Clancy y papur a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn am y fframwaith Rheoli Risg a Lles a ddatblygwyd. Eglurodd bod y dull a'r cofrestru wedi'u hystyried yn y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, a oedd yn cynnwys archwilio mewnol ac allanol, ac roedd yr holl bleidiau'n fodlon â'r cynnydd a wnaed. Cymeradwyodd y Comisiwn eglurder y cofrestru risg a'r arbenigedd a'r cyngor a roddwyd yn y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a chytunodd ar y trefniadau monitro ac adrodd arfaethedig y manylir arnynt yn y papur.

Papur 2C – Adroddiad Blynyddol 2007/8

Cyflwynodd Craig Stephenson y papur a oedd yn ceisio cael y Comisiwn i gytuno ar y dull ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf a fyddai'n cynnwys y cyfnod 2007/08. Nodwyd ei bod yn flwyddyn bwysig ac arwyddocaol i'r Cynulliad. Yn unol â'n hagenda cynaliadwyedd, ni fyddai copi caled o'r adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi. Byddai fersiwn bron yn derfynol o'r adroddiad ar-lein ar gael ar gyfer cyfarfod y Comisiwn ar 8 Gorffennaf er na fyddai hwn yn cynnwys ein datganiad o gyfrifon am 2007-8 gan y byddai angen cwblhau hwn drwy'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Swyddfa Archwilio Cymru. Croesawodd Comisiwn y Cynulliad y dull cynaliadwy arfaethedig a chytunodd y byddai rhai o'r meysydd arfaethedig yn rhoi cyfle i ddarparu rhagolwg yn cynnwys materion fel y paratodau ar gyfer Siambr Hywel a phrosiect Glanfa'r Cynulliad. Pwysleisiodd y Comisiynwyr bwysigrwydd ein perthynas a'n cysylltiad â sefydliadau rhyngwladol a'r angen i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys.

Gweithredu: Craig Stephenson i sicrhau bod yr adroddiad yn cynnwys y pwyntiau a wnaed gan y Comisiynwyr.

Papur 2D – Deddfwriaeth Cymru Ar-lein

Cyflwynodd Keith Bush papur a oedd yn cynnig rhoi mwy o gymorth ariannol i Ddeddfwriaeth Cymru Ar-lein. Eglurodd bod pryderon wedi'u mynegi ynghylch dyfodol y safle yn absenoldeb y sicrwydd o adnoddau a staffio a oedd yn ofynnol os oedd dyfodol y safle i'w amddiffyn ac er mwyn gallu cynllunio ar gyfer datblygu'r safle i'r dyfodol. Nodwyd pwysigrwydd y safle gan ei fod yn darparu cronfa ddata systematig ac eglurhad o bwerau'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru ac yn ddull o alluogi'r cyhoedd i ddeall pwerau deddfu mwy'r Cynulliad. Dylai cynyddu'r cyllid i £50,000 y flwyddyn a sefydlu ymrwymiad tymor hirach o 5 mlynedd sicrhau dyfodol y safle, gan gefnogi nod



Comisiwn y Cynulliad o hyrwyddo ac ehangu'r gyfranogaeth mewn datganoli. Byddai ariannu'n amodol ar gyflawni'r gwelliannau penodol sy'n cael eu rhestru yn y papur, rhywbeth a fyddai ond yn bosibl drwy gael arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau eraill hefyd. Cytunodd y Comisiwn ar yr argymhellion a chroesawodd y cynnig y dylid mynd at sefydliadau eraill a gofyn iddynt rannu'r gost o ddatblygu potensial llawn y gwasanaeth.

Gweithredu: Keith Bush i barhau â'i drafodaethau â Llywodraeth Cynulliad Cymru a Phrifysgol Caerdydd.

Eitem 3 – Polisiâu Comisiwn y Cynulliad

Papur 3A - Cydraddoldebau

Cyflwynodd Lorraine Barrett AC y papur a oedd yn gofyn i'r Comisiwn nodi canlyniadau'r arolwg staff, y cynigion ar gyfer ymgynghori ar y Cynllun Cydraddoldebau Sengl ac i nodi'r ymateb arfaethedig i adroddiad a gomisiynwyd yn allanol a oedd yn adolygu arferion recriwtio a'u heffaith posibl ar gynrychiolaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn ein gweithlu. Nodwyd bod cyfradd ymateb o 74% wedi'i chael ar gyfer yr arolwg cydraddoldebau staff a nododd y Comisiwn y prif ganlyniadau.

Nododd Adele Baumgardt Consulting yn ei hadroddiad bod arferion da, os nad ardderchog yn eu lle i gael effaith gadarnhaol ar ddirnadaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig o Gomisiwn y Cynulliad fel lle i weithio a'u gallu i gael mynediad at y prosesau ymgeisio a phenodi. Yr oedd, fodd bynnag, wedi gwneud pum argymhelliad ar: gasglu data a gweithredu ar y canfyddiadau; hyfforddi; estyn allan; hysbysebu; ac asesu effaith cydraddoldeb ein polisiâu. Cytunodd y Comisiwn ar ymateb cadarnhaol i bob un o'r argymhellion hyn a nododd bod trefniadau i adolygu'r broses recriwtio ar droed a bod rhaglen ar gyfer rhagor o hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei datblygu, a fyddai'n cynnwys hyfforddiant gorfodol mewn rhai meysydd. Cytunodd Comisiynwyr y dylai hyfforddiant hefyd fod ar gael i Aelodau'r Cynulliad a chymeradwywyd y trefniadau ar gyfer ymgynghori ar y cynllun cydraddoldebau sengl.

Gweithredu: Trefnu adolygiad o'r gweithdrefnau recriwtio. Y Tîm Cydraddoldebau i ddatblygu rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer staff ac Aelodau'r Cynulliad.

Papur 3B – Adroddiad Cydymffurfio Cynllun Iaith Gymraeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyflwynodd Craig Stephenson yr adroddiad cydymffurfio Cynllun Iaith Gymraeg blynyddol cyntaf. Eglurwyd bod un ar ddeg maes gwasanaeth wedi



cyd-gysylltu cynllun gweithredu ar gyfer y cynllun ac wedi cwblhau ffurflenni cydymffurfio ar gyfer eu meysydd. Rhoddwyd canlyniadau'r ffurflenni hyn mewn ffurflen gyfansawdd i'w hystyried gan y Comisiwn ac roedd yn dangos lefel dda o gydymffurfio ar draws y sefydliad. Croesawodd y Llywydd yr adroddiad ac eglurodd bod y cyflwyniad i fforwm dwyieithrwydd Gogledd Cymru ar weithio mewn sefydliad dwyieithog a'n Cynllun Iaith Gymraeg wedi cael derbyniad da, a phwysleisiodd y dylai'r Cynulliad barhau â'i arfer da yn y maes hwn.

Eitem 4 – Adroddiad y Bwrdd Rheoli i Gomisiwn y Cynulliad

Cyflwynodd Claire Clancy yr adroddiad, ac eglurodd bod y Bwrdd Gweithredu wedi'i newid i Fwrdd Rheoli newydd a oedd yn cynnwys yr holl benaethiaid gwasanaethau, y cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr. Roedd yr adroddiad yn dangos pa mor gyflym yr oedd mentrau'n cael eu datblygu ac ehangder y gwaith ar draws y nodau strategol. Croesawodd y Comisiwn yr adroddiad a nododd bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn ystyried y potensial ar gyfer cyflog byw yng Nghymru. Dywedodd Lorraine Barrett i'w hymweliad diweddar â Kew Palace fod yn ddefnyddiol a'i bod wedi cael syniadau a phosibiliadau ar gyfer datblygu Glanfa'r Cynulliad. Dywedodd Peter Black ei fod wedi cael adborth cadarnhaol am Senedd TV. Tynnodd Dianne Bevan sylw'r Comisiynwyr at y ffaith bod siop Glanfa'r Cynulliad yn symud i'r Senedd cyn hir a'r cynllun peilot i ehangu'r defnydd o fannau parcio ym maes parcio'r llawr isaf a fyddai'n digwydd yn ystod Toriad mis Mai.

Eitem 5 – Materion i'w nodi

Nododd y Comisiwn y cyfnewid gohebiaeth a ddigwyddodd ers y cyfarfod diwethaf – papurau 5A a B.

Dosbarthwyd adborth gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Comisiynwyr ac roeddynt wedi cytuno ar yr argymhelliad a wnaed trwy E-bost.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 10 Mehefin, a bydd hwn yn gyfarfod ar y cyd rhwng Comisiwn y Cynulliad a'r Pwyllgor Busnes.

**Ysgrifenyddiaeth
Dyddiad**

